



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 397 (Cy. 124)

2016 No. 397 (W. 124)

Y GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6)
(Rhif 2) 2016**

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Amendment of
Schedule 6) (No. 2) Order 2016**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg (“safonau”).

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) (“the Measure”) makes provision for the specification of standards of conduct in relation to the Welsh language (“standards”).

Mae adran 25 o'r Mesur yn darparu bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i'r person. Nid yw'r amodau eraill yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Section 25 of the Measure provides that a person must comply with a standard of conduct specified by the Welsh Ministers if, and for as long as, six conditions are met. Condition 1 is that the person is liable to be required to comply with standards. Condition 2 is that the standard is potentially applicable to the person. The other conditions are not relevant to this Order.

Mae adran 33 o'r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw'r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person (a) yn cael ei bennu yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Section 33 of the Measure provides that a person is liable to be required to comply with standards if the person is (a) within Schedule 5 and also within Schedule 6, or (b) within Schedule 7 and also within Schedule 8. A person is within Schedule 5 if the person falls within a category of persons specified in column 2 of the table in Schedule 5. A person is within Schedule 6 if the person (a) is specified in column 1 of the table in Schedule 6, or (b) is within a category of persons specified in that column. Schedules 7 and 8 are not relevant to this Order.

Mae adran 36 yn darparu bod safon yn gymwysadwy i berson os yw'r safon yn perthyn i ddsbarth o safonau a bennir yng ngholofn 2 o gofnod y person yn y tabl yn Atodlen 6. Mae pob un o'r canlynol yn ddsbarth o safonau—

Section 36 provides that a standard is potentially applicable to a person if the standard belongs to a class of standard that is specified in column 2 of the person's entry in the table in Schedule 6. Each of the following is a class of standard—

- (i) safonau cyflenwi gwasanaethau;
- (ii) safonau llunio polisi;
- (iii) safonau gweithredu;

- (i) service delivery standards;
- (ii) policy making standards;
- (iii) operational standards;

(iv) safonau hybu;

(v) safonau cadw cofnodion.

Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, neu gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu;

(iv) safonau cadw cofnodion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy—

(a) mewnosod personau newydd yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob person;

(b) hepgor personau o Atodlen 6 pan fo'n briodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

(iv) promotion standards;

(v) record keeping standards.

Section 35 enables the Welsh Ministers, by order, to amend the table in Schedule 6 so that it includes a reference to a person who falls within one or more of the Schedule 5 categories or a category of persons, all of whom fall within one or more of the Schedule 5 categories.

Section 38 enables the Welsh Ministers, by order, to amend the table in Schedule 6 so that column 2 of an entry includes a reference to one or more of the following—

(i) service delivery standards;

(ii) policy making standards;

(iii) operational standards;

(iv) record keeping standards.

This Order amends Schedule 6 to the Measure by—

(a) inserting new persons into Schedule 6 and specifying classes of standard in column 2 of each person's entry;

(b) removing persons from Schedule 6 where appropriate.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2016 Rhif 397 (Cy. 124)

2016 No. 397 (W. 124)

Y GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

**Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6)
(Rhif 2) 2016**

**The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Amendment of
Schedule 6) (No. 2) Order 2016**

Gwnaed 15 Mawrth 2016
Yn dod i rym 21 Mawrth 2016

Made 15 March 2016
Coming into force 21 March 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 35, 38 a 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 35, 38 and 150(2)(f) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011(1), make the following Order.

Yn unol ag adran 150(2)(f) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

In accordance with section 150(2)(f) of the Measure, a draft of this Order was laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016.

1.—(1) The title of this Order is the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (Amendment of Schedule 6) (No. 2) Order 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2016.

(2) This Order comes into force on 21 March 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) This Order applies in relation to Wales.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

(4) In this Order "the Measure" ("*y Mesur*") means the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Diwygio Atodlen 6

Amendment of Schedule 6

2. Mae Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i'r Mesur wedi ei diwygio yn unol â'r Atodlen.

2. Schedule 6 (public bodies etc: standards) to the Measure is amended in accordance with the Schedule.

Carwyn Jones

Prif Weinidog Cymru
15 Mawrth 2016

First Minister of Wales
15 March 2016

(1) 2011 mccc 1.

(1) 2011 nawm 1.

DIWYGIADAU I ATODLEN 6

AMENDMENTS TO SCHEDULE 6

1. Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i'r Mesur, yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig (“ <i>Merthyr Tydfil College Limited</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant (“ <i>The governing body of Saint David’s Catholic College</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Tribiwnlys Priso Cymru (“ <i>Valuation Tribunal for Wales</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“WJEC CBAC Cyfyngedig (“ <i>WJEC CBAC Limited</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (“ <i>Trustees of the National Heritage Memorial Fund</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”

2. Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 (public bodies etc: standards) i'r Mesur, yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“The governing body of Saint David’s Catholic College (“ <i>Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Merthyr Tydfil College Limited (“ <i>Coleg Merthyr Tydfil Cyfyngedig</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Trustees of the National Heritage Memorial Fund (“ <i>Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”

1. In the Welsh language text of the table in Schedule 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) to the Measure, in the appropriate places insert—

“Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig (“ <i>Merthyr Tydfil College Limited</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant (“ <i>The governing body of Saint David’s Catholic College</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Tribiwnlys Priso Cymru (“ <i>Valuation Tribunal for Wales</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“WJEC CBAC Cyfyngedig (“ <i>WJEC CBAC Limited</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
“Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (“ <i>Trustees of the National Heritage Memorial Fund</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”

2. In the English language text of the table in Schedule 6 (public bodies etc: standards) to the Measure, in the appropriate places insert—

“The governing body of Saint David’s Catholic College (“ <i>Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Merthyr Tydfil College Limited (“ <i>Coleg Merthyr Tydfil Cyfyngedig</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Trustees of the National Heritage Memorial Fund (“ <i>Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”

“Valuation Tribunal for Wales (<i>“Tribiwnlys Prisiau Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“WJEC CBAC Limited (<i>“WJEC CBAC Cyfyngedig”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“Valuation Tribunal for Wales (<i>“Tribiwnlys Prisiau Cymru”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
“WJEC CBAC Limited (<i>“WJEC CBAC Cyfyngedig”</i>)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”

3. Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- (a) “Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (*“National Heritage Memorial Fund”*)”;
- (b) “Gwasanaeth Tribiwnlys Prisiau Cymru (*“The Valuation Tribunal Service for Wales”*)”.

4. Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

- (a) “National Heritage Memorial Fund (*“Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol”*)”;
- (b) “The Valuation Tribunal Service for Wales (*“Gwasanaeth Tribiwnlys Prisiau Cymru”*)”.

©[©]Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

3. In the Welsh language text of the table in Schedule 6 to the Measure, omit the following entries—

- (a) “Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (*“National Heritage Memorial Fund”*)”;
- (b) “Gwasanaeth Tribiwnlys Prisiau Cymru (*“The Valuation Tribunal Service for Wales”*)”.

4. In the English language text of the table in Schedule 6 to the Measure, omit the following entries—

- (a) “National Heritage Memorial Fund (*“Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol”*)”;
- (b) “The Valuation Tribunal Service for Wales (*“Gwasanaeth Tribiwnlys Prisiau Cymru”*)”.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 397 (Cy. 124)

2016 No. 397 (W. 124)

Y GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

Gorchymyn Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6)
(Rhif 2) 2016

The Welsh Language (Wales)
Measure 2011 (Amendment of
Schedule 6) (No. 2) Order 2016

£4.25

W2651/03/16

ON

ISBN 978-0-348-11314-3



9 780348 113143